

Arolwg Defnydd Llety Cymru, 2014

Adroddiad Blynyddol

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Robert Lewis

Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

E-bost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

4 Awst 2015



'Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol	ii-v
2	Cyflwyniad	1
3	Gwestai	2
4	Tai Llety/Gwely a Brecwast	14
5	Pob Llety â Gwasanaeth	25
6	Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar	28
7	Cartrefi Gwyliau Carafan	40
8	Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla	43
9	Hostelau a Thai Bynciau	47
	Atodiad 1 – Gwestai	52
	Atodiad 2 – Tai Llety/Gwely a Brecwast	55
	Atodiad 3 - Hunanddarpar	58
	Atodiad 4 – Maint Samplau	59

1 Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd arolwg defnydd ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad yn ddi-dor ers 1972 i fonitro lefelau'r galw am ystafelloedd a gwelyau mewn gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb raddiad.

Newidiadau mewn Adroddiadau Defnydd

Bu newid i ddata defnydd gwestai o Ionawr 2014 ymlaen. Caiff data syndicâd ar gyfer tua chant o westai mwy gyda 100+ ystafell a ddarparwyd gan STR Global yn awr ei gynnwys wrth gyfrif defnydd gwestai Cymru yn gyffredinol. Mae data STR Global yn cynnwys defnydd a refeniw ond nid math o westeion (h.y. o'r Deyrnas Unedig neu dramor, teithwyr busnes neu rai heb fod yn deithwyr busnes). Cynhwysir data ar gyfer 2014 i gyd ond nid am unrhyw flynyddoedd cyn hynny. Mae cynnwys y data yma'n gwneud yr arolwg yn llawer mwy cadarn ond gall gael peth effaith ar dueddiadau cyn 2014.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán, parciau carafanau teithio a gwersylla. Yn 2008 cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys yn yr arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Arolwg Defnydd Llety Cymru 2014. Lle mae ar gael ac yn briodol, cyflwynir ffigurau y gellir eu cymharu o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad.

Gwestai

- Roedd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau 2014 yn 50% ac yn 66% ar gyfer defnydd ystafelloedd. Mae'r cyfraddau hyn yn gynydd o bum pwynt canran ar y rhai a gofnodwyd yn 2013 a hwy hefyd yw'r cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol uchaf a gofnodwyd ar gyfer y sector hwn yn ystod y 11 mlynedd diwethaf.
- Yn 2014 dangosodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau a hefyd gyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd gynydd o bum pwynt canran o gymharu gyda 2013.

- Dros y deng mlynedd flaenorol (2004-2013), y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ddangosodd y cysondeb mwyaf gyda chyfraddau yn yr ystod 42% - 45%, tra amrywiodd cyfradd gyfartalog defnydd blynyddol ystafelloedd o 57% - 61%.
- Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd 2014 yng Ngogledd, De Ddwyrain a De Orllewin Cymru o gymharu gyda 2013 (gan rhwng 3 a 14 pwynt canran) a hefyd 2004 (gan rhwng 6 a 9 pwynt canran). Yn y Canolbarth, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd o 52% yr un ag ar gyfer 2013 a hefyd 2004.
- Rhanbarth y De Ddwyrain eto gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd o 71% - y cyfartaledd uchaf a gofnodwyd yn ystod y cyfnod dan sylw (2004 - 2014).

Tai Llety/Gwely a Brecwast

- Er bod cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast ar draws Cymru wedi parhau'n weddol gyson ar 27 neu 28% dros y tair blynedd ddiwethaf, gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 34% a 35% yn 2012 a 2013 i 33% yn 2014.
- Mae natur dymhorol y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast yng Nghymru yn parhau'n amlwg yn 2014. Dechreuodd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau y flwyddyn ar 10% ym mis Ionawr cyn codi i frig o 50% ym mis Awst a gorffen y flwyddyn gyda chyfradd o 13% ym mis Rhagfyr 2014. Dilynodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd batrwm tebyg hefyd, gan gynyddu o 14% ym mis Ionawr i 57% ym mis Awst ac yna ostwng i 17% ym mis Rhagfyr.
- Cynyddodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn y De Ddwyrain o 28% yn 2013 i 32% yn 2014 a pharhau'n gyson yn y Gogledd ar 35%. Gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn y Canolbarth a De Orllewin Cymru (o 32% i 27% ac o 43% i 40% yn yr un drefn).

Pob Llety â Gwasanaeth

- Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau pob llety â gwasanaeth ar draws Cymru yn 45% yn 2014, tra bod cyfradd gyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn 60%.

- Mae cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd hefyd wedi dangos llawer o gysondeb mewn blynyddoedd diweddar gyda chyfradd o 52% wedi'i chofnodi bob blwyddyn rhwng 2008 a 2012, gan gynyddu yn 2013 i 54% ac yn 2014% i 60%.

Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar

- Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau yn 51% yn 2014, un pwynt canran yn uwch nag yn 2013. Fel gyda'r sectorau â gwasanaeth, parhaodd llety hunanddarpar hefyd i ddangos gwahaniaeth tymhorol yn y cyfraddau cyfartalog a gofnodwyd ar gyfer defnydd unedau ym mhob mis yn 2014. Cofnodwyd cyfradd defnydd unedau o 24% ym mis Ionawr a gynyddodd i frig o 87% ym mis Awst cyn gostwng i 31% yn mis Tachwedd (a chynyddu i 41% ym mis Rhagfyr).
- Roedd cyfradd gyfartalog defnydd unedau ar gyfer eiddo a osodwyd yn annibynnol ar draws Cymru yn 46%, yr un canran â 2013. Bu gan eiddo a osodwyd gan asiantaethau gyfraddau cyfartalog blynyddol cymharol sefydlog ar gyfer defnydd unedau mewn blynyddoedd diweddar, gyda chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd unedau yn yr ystod 57%-58% o 2011 i 2013.

Cartrefi Gwyliau Carafan

- Parhaodd cyfradd gyfartalog dymhorol cartrefi gwyliau carafán dros 75% yn y cyfnod 2009-2013. Fodd bynnag mae'r ffigur ar gyfer 2014 yn dangos cwymp o 13 pwynt canran i 65% - yr isaf o'r blynyddoedd dan sylw.
- Ac eithrio mis Ebrill, dangosodd cyfraddau defnydd 2014 ostyngiad ar draws pob mis o gymharu gyda blynyddoedd blaenorol - gyda'r gostyngiad yn amrywio o 16 pwynt canran ym mis Mawrth i 24 pwynt canran misoedd Gorffennaf ac Awst.

Parciau Carafanau Teithio a Gwersylla

- Bu peth amrywiad yng nghyfradd gyfartalog dymhorol misoedd Mai i Hydref dros y blynyddoedd ac mae amrywiadau yn y sampl wedi dylanwadu yn rhannol ar hynny. Mae cyfradd 2014 o 27% un pwynt canran yn is na'r cyfartaledd tymhorol a gofnodwyd yn 2013, bump yn is nag yn 2012 (32%) a dim ond ychydig dros hanner cyfartaledd 2008.
- Arhosodd cyfradd gyfartalog dymhorol 2014 ar gyfer lleoliadau mewndirol ar yr un lefel o gymharu gyda 2013 tra bu gostyngiad o naw phwynt canran mewn lleoliadau mewndirol.

Hostelau a Thai Bynciau

- Roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau Hostelau a Thai Bynciau yn 46% yn 2014, bedwar pwynt canran yn uwch ar gyfartaledd yn 2013 (42%).
- Yn 2014 dim ond mewn tri mis (Chwefror, Mawrth a Mehefin) y bu gostyngiad mewn defnydd cyfartalog gwelyau o gymharu gyda 2013 - er ei bod yn debyg y gellir priodoli'r gostyngiad ym mis Mawrth i'r ffaith fod y Pasg ddiwedd mis Mawrth yn 2013, yn hytrach nag ym mis Ebrill (dangosir hynny hefyd yn y ffaith y bu cynnydd o 11 pwynt canran mewn defnydd ym mis Ebrill 2014). Cynyddodd defnydd ym mis Awst 2014 i 73% - yr uchaf a gofnodwyd yn y cyfnod dan sylw.

2 Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolwg defnydd yn ddi-dor ymysg darparwyr llety gwesty gyda graddiad ers 1972 i fonitro lefelau galw am ystafelloedd a gwelyau gwestai yng Nghymru. I gydymffurfio gyda gofynion Cyfarwydddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Ystadegau Twristiaeth, cafodd yr arolwg ei ymestyn yn 1997 i gynnwys pob llety â gwasanaeth yn cynnwys tai llety a sefydliadau gwely a brecwast, yn ogystal â llety â gwasanaeth heb ei raddio.

Newid mewn Adroddiadau Defnydd

Bu newid i ddata defnydd gwestai o Ionawr 2014 ymlaen. Caiff data syndicâd ar gyfer tua chant o westai mwy gyda 100+ ystafell a ddarparwyd gan STR Global yn awr ei gynnwys wrth gyfrif defnydd gwestai Cymru yn gyffredinol. Mae data STR Global yn cynnwys defnydd a refeniw ond nid math o westeion (h.y. o'r Deyrnas Unedig neu dramor, teithwyr busnes neu rai heb fod yn deithwyr busnes). Cynhwysir data ar gyfer 2014 i gyd ond nid am unrhyw flynyddoedd cyn hynny. Mae cynnwys y data yma'n gwneud yr arolwg yn llawer mwy cadarn ond gall gael peth effaith ar dueddiadau cyn 2014.

Cynhaliwyd yr arolwg hunanddarpar mewn gwahanol fformatau ers 1987. Mae'r arolwg yn cynnwys llety hunanddarpar, cartrefi gwyliau carafán, parciau carafanau teithio a gwersylla. Yn 2008 cafodd hostelau a thai bynciau hefyd eu cynnwys yn yr arolwg.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Arolwg Defnydd Llety Cymru 2014. Lle mae ar gael ac yn briodol, cyflwynir ffigurau y gellir eu cymharu o flynyddoedd blaenorol ym mhob rhan o'r adroddiad.

- Adran 3: Gwestai
- Adran 4: Tai Llety / Gwely a Brecwast
- Adran 5: Pob Llety â Gwasanaeth
- Adran 6: Bythynnod a Rhandai Hunanddarpar
- Adran 7: Cartrefi Gwyliau Carafán
- Adran 8: Parciau Carafanau Teithiol a Gwersylla
- Adran 9: Hostelau a Thai Bynciau


3 Gwestai

Mae'r adran yma o'r adroddiad yn cyflwyno data defnydd 2014 ar gyfer gwestai. Dylid nodi fod data gwestai ar gyfer 2014 yn cynnwys data o STR Global ar gyfer gwestai gyda 100+ ystafell.

3.1 Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Gwelyau ac Ystafelloedd

Yn 2014 roedd cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau yn 50% ac yn 66% ar gyfer defnydd ystafelloedd. Mae'r cyfraddau hyn yn gynydd o bum pwynt canran ar y rhai a gofnodwyd yn 2013 ac maent hefyd y cyfraddau cyfartalog uchaf ar gyfer defnydd a gofnodwyd ar gyfer y sector yma yn ystod y 11 mlynedd ddiwethaf.

Ffigur 3.1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynnyddol (%)




Yn 2014, dangosodd cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd gwelyau a hefyd ddefnydd ystafelloedd gynydd o bum pwynt canran o gymharu gyda 2013. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa dros y naw mlynedd flaenorol lle mae dim ond un neu ddau bwynt canran flwyddyn ar flwyddyn a ddangosodd y cyfraddau.

Dros y deng mlynedd blaenorol (2004 - 2013), cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau ddangosodd y cysondeb mwyaf gyda chyfraddau yn yr ystod 42% - 45% gyda chyfradd gyfartalog defnydd blynnyddol ystafelloedd yn amrywio rhwng 57% - 61%. Parhaodd cyfraddau 2014 â'r tueddiad ar i fyny gan gynyddu gan 8 pwynt canran (defnydd gwelyau) a 9 (defnydd ystafelloedd) o gymharu gyda 2004.

3.2 Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd ystafelloedd a gwelyau ynghyd â'r cyfartaleddau blyneddol a gofnodwyd yn y sector gwesty yn 2014 yn Ffigur 3.2 islaw.

Ffigur 3.2 - Gwestai - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd 2014 (%)



Parhaodd natur dymhorol cyfraddau defnydd gwestai yng Nghymru i fod yn amlwg yn 2014. Cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o 32% ym mis Ionawr i frig o 65% ym mis Awst cyn gostwng i 39% ym mis Rhagfyr. Dilynodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd batrwm tebyg gan ddechrau'r flwyddyn ar 46% cyn codi i 80% ym mis Awst a gorffen y flwyddyn ar 51% ym mis Rhagfyr.

Tabl 3.1 - Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd - Cyfartaleddau Misol (%)

	Defnydd Ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	35	40	38	40	39	40	39	40	40	40	46
Chwefror	49	48	50	50	50	48	50	53	49	54	58
Mawrth	52	52	51	53	54	51	53	56	59	56	59
Ebrill	54	57	58	58	56	58	60	61	57	60	66
Mai	63	63	65	65	66	62	64	64	63	66	70
Mehefin	65	65	66	67	66	68	69	68	66	68	72
Gorffennaf	67	67	70	67	67	70	70	69	67	72	77
Awst	68	69	73	73	71	70	69	67	72	74	80
Medi	69	69	71	71	69	69	70	68	71	69	76
Hydref	58	58	61	62	61	63	63	61	60	62	69
Tachwedd	52	50	53	55	54	54	54	56	52	59	60
Rhagfyr	45	43	44	47	45	47	42	44	49	50	51
Cyfartaledd Blyneddol	57	57	58	59	58	58	59	59	59	61	66


O gymharu gyda 2013, cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd bob mis yn 2014, gyda'r cynnydd yn amrywio o 1 pwynt canran (mis Tachwedd a mis Rhagfyr) i 7 pwynt canran (mis Medi a mis Hydref).

Cyfraddau defnydd misol cyfartalog ystafelloedd 2014 oedd yr uchaf a gofnodwyd yn y cyfnod 2004 - 2014. Bu'r cynnydd mwyaf (12 pwynt canran) ym mis Ebrill a mis Awst, gyda mis Rhagfyr yn cofrestru'r cynnydd lleiaf (6 pwynt canradd).

Mae tueddiadau mewn cyfraddau defnydd misol ers 2004 yn Atodiad 1a.

3.2 Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Ffigur 3.3 - Gwestai - Defnydd Cyfartalog Blynnyddol Gwelyau ac Ystafelloedd yn ôl Rhanbarth (%)



Yn y Gogledd y cofnodwyd y gyfradd defnydd cyfartalog blynnyddol uchaf ar gyfer gwelyau (53%), gyda'r De Ddwyrain yn cofnodi (49%) a'r De Orllewin (50%).

Roedd cyfraddau cyfartalog blynnyddol defnydd ystafelloedd yn fwy amrywiol gyda'r gyfradd uchaf yn y De Ddwyrain (71%), a ddilynwyd gan gyfradd o 66% ar gyfer y Gogledd a 64% ar gyfer y De Orllewin. Cofnodwyd cyfraddau cyfartalog blynnyddol is yn 2014 ar gyfer y Canolbarth (39% ar gyfer defnydd gwelyau a 52% ar gyfer defnydd ystafelloedd).

Cyflwynir lefelau cyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob rhanbarth ar sail fisol ar gyfer 2014 yn Atodiad 1b ac 1c. Oherwydd maint bach y sampl mewn rhai ardaloedd, dylid nodi nad yw'r wybodaeth yma bob amser ar gael.

3.2.1 Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Tabl 3.2 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd ar gyfer Rhanbarthau Cymru (%)

	Defnydd Gyfartalog Blynnyddol Ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Gogledd	54	54	57	59	57	62	61	61	62	63	66
Canolbarth	52	52	53	53	50	49	49	54	54	52	52
De Ddwyrain	63	60	63	63	66	62	62	61	61	66	71
De Orllewin	55	59	58	58	56	53	54	51	50	50	64
CYFANSWM CYMRU	57	57	58	59	58	58	59	59	59	61	66

Cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol 2014 ar ddefnydd ystafelloedd yn y Gogledd, De Ddwyrain a'r De Orllewin o gymharu gyda 2013 (gan rhwng 3 a 14 pwynt canran) a hefyd 2004 (gan rhwng 6 a 9 pwynt canran). Yn y Canolbarth, roedd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd blynnyddol 2014 o 52% yr un fath ag ar gyfer 2013 a hefyd 2004.


Rhanbarth y De Ddwyrain eto gofnododd cyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd o 71% - y cyfartaledd uchaf a gofnodwyd yn ystod y cyfnod dan sylw (2004 - 2014).

3.3 Canran Gwesteion Tramor

Cafodd y ffurflenni a ddefnyddiwyd i gasglu data defnydd eu diweddarau yn 2008 i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Roedd un o'r newidiadau'n effeithio ar y ffordd y cesglir gwybodaeth ar westeion tramor. Mewn blynnyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y gwesteion newydd oedd yn cyrraedd bob dydd (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd y canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gwesteion newydd yn cyrraedd. Ni chafodd yr wybodaeth yma ei chasglu o 2008 ymlaen, felly fel canlyniad rydym wedi cyflwyno'r gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Mae'n bwysig dweud mai mater o ychydig o leoedd degol yw'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol ddulliau o gasglu data tramor. Fe enghraifft, roedd canran blynnyddol 2007 yn 4.0% yn defnyddio'r hen ddull a 4.1% yn defnyddio'r dull newydd. Oherwydd y newidiadau hyn, ac i sicrhau cysondeb y caiff ffigurau tramor ar draws y blynnyddoedd eu cymharu gan ddefnyddio'r un dull, cafodd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynir am westeion tramor ei ostwng a bydd y ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2014.

Ffigur 3.4 – Gwestai - Canran Nosweithiau Gwely Tramor 2014 (%)



Am dri mis cyntaf 2014, parhaodd canran nosweithiau gwely tramor ar 2%. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, parhaodd cyfradd defnydd nosweithiau gwely tramor i fod ar ei uchaf yn ystod misoedd yr haf, gyda ffigur o 6% yn cael ei gofnodi bob mis o fis Mai i fis Awst. Y cyfartaledd blynyddol oedd 4%.

3.3.1 Tueddiadau yn y Canran o Westeion Tramor

Cyfradd gyfartalog flynyddol nosweithiau gwely tramor ar gyfer 2014 oedd 4%, ddau bwynt canran yn is nag yn 2013.


Tabl 3.3 – Gwestai - Tueddiadau yn y Canran o Westeion Tramor

	% Nosweithiau Gwely Tramor						
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	3	5	4	6	5	3	2
Chwefror	2	4	4	4	2	3	2
Mawrth	3	4	5	5	4	3	2
Ebrill	4	4	4	4	4	5	3
Mai	6	5	5	6	5	6	6
Mehefin	6	5	6	6	3	7	6
Gorffennaf	7	6	6	7	6	9	6
Awst	4	5	4	5	7	7	6
Medi	8	5	6	5	5	7	4
Hydref	5	4	6	4	4	5	5
Tachwedd	7	4	5	4	2	2	2
Rhagfyr	3	2	3	3	3	6	2
Cyfartaledd Blynyddol	5	5	5	5	4	6	4

Mae cyfraddau defnydd nosweithiau gwely tramor wedi parhau i fod yn fwy amrywiol na'r cyfraddau blynyddol pan y'u dadansoddir ar sail fisol, fodd bynnag, oherwydd y cyfrannau cymharol fach a gofnodwyd,

ni fu'r rhain yn amrywiadau sylweddol iawn. Roedd ffigurau 2014 yn is na 2013 ym mhob mis heblaw Mai, Hydref a Thachwedd, pan wnaethant barhau ar eu lefel yn 2013.

Ffigur 3.5 - Gwestai - Canran Ymwelwyr Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 – 2014 (%)




Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol roedd defnydd blynyddol uchaf gwesteion tramor yn y Canolbarth (7% - cynnydd o 2 pwynt canran o gymharu gyda 2013). Cofnodwyd ffigur isaf 2014 (3%) yn y Gogledd. Y Canolbarth oedd yr unig ranbarth lle'r oedd ffigur 2014 ar gyfer gwesteion tramor yn uwch nag un 2008.

3.4 Canran Gwesteion Busnes

Ar y ffurflen defnydd misol, gofynnwyd i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion yn aros yn y gwesty bob nos ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi na roddodd yr holl gyfranogwyr yr wybodaeth yma. Dangosir y data misol ar gyfer 2014 yn Ffigur 3.6 islaw.

Ffigur 3.6 – Gwestai - Canran Gwesteion Busnes 2014 (%)



Yn 2014 parhaodd defnydd busnes i ddangos patrwm croes i'r un a gofnodwyd ar gyfer cyfraddau defnydd cyffredinol yn 2013, gyda'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi y tu allan i brif dymor yr haf. Cofnodwyd cyfraddau cyfartalog uchaf 2014 ar gyfer defnydd busnes ar ddechrau'r flwyddyn, gyda chyfradd o 22% ym mis Ionawr a 23% ym mis Chwefror. Mae'r cyfraddau uchel hyn yn cyferbynnu gyda chyfraddau is yr haf o 8% a 5% (misoedd Gorffennaf ac Awst) gan roi cyfartaledd blynyddol o 13% ar gyfer 2014.

.Tabl 3.4 – Gwesteion - Tueddiadau yn y Canran o Westeion Busnes

	% Gwesteion Busnes										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	41	45	41	33	38	31	22	29	27	17	22
Chwefror	38	37	30	25	26	26	19	21	17	16	23
Mawrth	39	30	28	21	19	24	20	19	11	11	17
Ebrill	25	26	15	15	24	17	13	9	7	7	17
Mai	24	19	17	18	16	16	15	15	9	7	12
Mehefin	20	21	17	16	19	20	14	12	7	7	10
Gorffennaf	22	19	17	14	18	17	13	11	7	7	8
Awst	15	14	14	10	11	11	9	9	6	6	5
Medi	21	22	15	12	18	14	12	10	6	11	11
Hydref	25	25	21	15	21	18	15	13	8	9	15
Tachwedd	38	34	24	23	28	19	24	21	11	20	14
Rhagfyr	24	28	18	24	21	17	20	14	12	22	16
Cyfartaledd Blynyddol	27	25	20	18	20	18	15	14	9	10	13


Dangosodd cyfradd cyfartalog defnydd busnes 2014 o 13% gynnydd o 3 pwynt canran o gymharu gyda ffigur 2013. Yn wahanol i 2013, roedd y ffigurau uchaf ar gyfer defnydd busnes ym misoedd Ionawr a Chwefror gan ddychwelyd i batrymau blynyddoedd cyn 2013. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau ar gyfer defnydd busnes mewn gwestai wedi gostwng yn y blynyddoedd ers 2004.

Dylid nodi, er bod meintiau'r sampl y rhai a roddodd ddata busnes yn weddol gyson bob mis rhwng 2012 a 2014, nid yw pob sefydliad yn rhoi data ar ddefnydd busnes.

3.5 Defnydd yn ôl Maint Gwesty

Cyflwynir y ffigurau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint gwesty ar gyfer 2014 yn Ffigur 3.7 islaw. Oherwydd maint bach y sampl ni chyflwynir data ar gyfer gwestai gyda 1-3 ystafell. Rhoddir manylion lefelau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau maint a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad yma.

Ffigur 3.7 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Maint Gwesty - 2014 (%)



Roedd amrywiadau yn ôl maint gwesty yn fwy amlwg ar gyfer defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd nag ar gyfer defnydd gwelyau yn 2014, gyda'r cyfraddau ar gyfer y ddau fand maint lleiaf yn 58 a 57% a'r tri band maint mwyaf â chyfraddau o 61, 68 a 75% - mae'n debygol y denodd sefydliadau mwy gyfran uwch o ddefnyddwyr busnes ac os felly mae'n fwy tebygol y defnyddiwyd ystafelloedd gan un gwestai. Roedd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer y gwestai lleiaf (4-10 a 11-25 ystafell) tua 10 pwynt canran yn wahanol i'w cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd, roedd y rhai ar gyfer gwestai mwy yn sylweddol is na'r cyfraddau defnydd ystafelloedd - gan hyd at 23 pwynt canran.

Tabl 3.5 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Gwesty

Defnydd Cyfartalog Blynyddol Ystafelloedd (%)											
Nifer ystafelloedd	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
4-10	48	47	47	46	40	40	45	52	49	52	58
11-25	50	52	53	54	53	55	53	54	51	52	57
26-50	56	56	58	61	62	58	57	56	62	59	61
51-100	66	60	62	64	66	63	66	65	65	65	68
101+	68	69	71	68	67	69	68	63	64	71	75


O gymharu gyda 2013, cofnodwyd y cynnydd mwyaf yng nghyfradd gyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn 2014 mewn gwestai gyda 4-10 a 11-25 ystafell, gyda chynnydd o 6 a 5 pwynt canran yn yr un drefn. Ac eithrio band maint 26-50, gwelodd pob categori maint gynnydd yng nghyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd yn y tair blynedd ddiwethaf gyda'r cynnydd mwyaf (11 pwynt canran) yn y gwestai mwy.

3.5 Defnydd yn ôl Tariff

Mae'r ffigurau tariff a ddefnyddir yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu efaill, yn cynnwys brecwast. Rhoddir lefelau misol defnydd gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 1b ac 1c yr adran yma o'r adroddiad.

Mae Ffigur 3-8 islaw'n dangos ffigurau blynyddol defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl tariff ar gyfer 2014. Nid oes dadansoddiad ar gyfer gwestai gyda thariff o lai na £20 gan nad oedd unrhyw sefydliadau yn y band tariff yma yn y sampl yn 2014.

Ffigur 3.8 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Gwesty – 2014 (%)



Yn 2014, roedd cydberthynas gyffredinol rhwng cyfraddau defnydd a thariff. Fodd bynnag, ni chynyddodd y cyfraddau a gofnodwyd yn gyson mewn cysylltiad gyda'r cynnydd mewn pris. Fel yn 2013, cofnodwyd cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer gwestai'n codi £60 neu fwy (52% a 68% yn yr un drefn). Fodd bynnag, cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd gwelyau gan y rhai'n codi £49-£49.99 (36%) yn hytrach na sefydliadau yn y band tariff isaf (er mai sefydliadau'n codi £30-£39.99 gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol isaf ar gyfer defnydd ystafelloedd o 49%).

Tabl 3.6 - Gwestai- Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Gwesty (%)


Cyfartaledd Blynyddol Defnydd Ystafelloedd											
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
£30-£39.99	49	50	47	48	45	43	45	46	49	49	48
£40-£49.99	53	57	44	53	51	51	55	59	58	57	59
£50-£59.99	58	57	62	62	59	54	59	60	57	56	62
£60+	60	60	61	63	64	63	61	60	61	64	68

Mae cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer y rhai yn y band tariff isaf wedi parhau'n weddol gyson dros y cyfnod dan sylw. Fodd bynnag, cofnododd pob un o'r tri band arall gynnydd yn ystod y cyfnod.

3.6 Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad y gwesty - mewn dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu leoliad gwledig/pentref. Rhoddir manylion lefelau defnydd misol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob un o'r categorïau lleoliad yn Atodiad 1b ac 1c yr adroddiad yma.

Ffigur 3.9 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Lleoliad Gwesty - 2014 (%)



Sefydliadau mewn ardaloedd glan môr gofnododd y gyfradd gyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau (53%), gyda'r gyfradd isaf mewn gwestai mewn trefi bach (41%), yn gyson gyda blynyddoedd blaenorol. Cofnododd gwestai dinas/tref fawr gyfradd o 43% gyda gwestai gwledig/pentref yn cofnodi 46%.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd (65%) sy'n cymharu gyda 63% mewn lleoliadau glan môr, 58% mewn lleoliadau gwledig/pentref a 56% mewn trefi bach. Roedd sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr yn fwy tebygol o ddenu gwesteion busnes ac yn eu tro, i fod â chyfran uwch o'u hystafelloedd yn cael eu defnyddio gan un gwestai gan arwain at fwy o wahaniaeth rhwng cyfraddau defnydd ystafelloedd a gwelyau.

Tabl 3.7 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Gwesty (%)


	Defnydd Blynyddol Ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Dinas/tref fawr	69	67	71	71	71	69	66	62	64	69	65
Tref fach	54	56	57	57	53	55	61	59	61	60	56
Glan môr	56	56	57	62	60	58	59	60	59	60	63
Gwledig/ pentref	53	53	53	52	53	52	53	55	53	52	58

Rhwng 2009 a 2011, cofnododd sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr ostyngiad o saith pwynt canran yn eu cyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd, a ostyngodd o 69% i 62%. Roedd y gyfradd wedi cynyddu i dros 69% yn 2013 ond gostyngodd i 65% yn 2014 (4 pwynt canran yn is nag yn 2004). Gwelodd trefi bach gynnydd i 60% yn 2013 gyda gostyngiad dilynol i 56% yn 2014, tra gwelodd gwestai mewn lleoliadau glan môr a gwledig/pentref eu cyfraddau defnydd yn cynyddu'n weddol gyson dros y cyfnod.

3.7 Defnydd yn ôl Graddiad

Ers 1999, cafodd cyfraddau defnydd gwestai eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru. Ni chyflwynir dadansoddiad ar gyfer gwestai gradd 1 seren gan nad oedd unrhyw westai gyda'r graddiad hwn yn sampl 2014.

Ffigur 3.10 – Gwestai - Defnydd Blynyddol yn ôl Graddiad Gwesty – 2014 (%)



Cofnododd gwestai nad oedd wedi graddio o fewn cynllun graddiad Croeso Cymru ffigurau cyfartalog blynyddol is ar gyfer cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn 2014 na sefydliadau gyda graddiad. Cofnodwyd cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd gyda sefydliadau gyda graddiad 2 seren (68 a 84%). Cofnododd gwestai 3, 4 a 5 seren gyfraddau defnydd ystafelloedd tebyg (60, 65 a 65%) ond amrywiodd eu cyfraddau defnydd gwelyau o 46% i 61%).

Tabl 3.8 – Gwestai - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad Gwesty (%)

Defnydd Blynyddol Ystafelloedd											
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Heb raddiad	52	39	36	42	51	46	53	54	53	62	48
2 seren	59	56	58	56	61	59	59	64	64	65	84
3 seren	56	57	59	60	61	58	58	57	59	59	60
4 seren	60	59	61	61	57	64	64	60	60	58	65
5 seren	49	53	57	65	62	68	67	73	77	74	65

Dros y cyfnod 2004-2014, cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd a fu fwyaf cyson ymhlith sefydliadau gyda graddiad 3 seren yn y graddiad yma yn yr ystod 56-61% dros y cyfnod. Cyrhaeddodd cyfraddau ar gyfer gwestai gyda 5 seren frig o 77% yn 2012 ond maent wedi gostwng i 65% yn 2014. Gwelodd gwestai 2 a 4 seren gryn dipyn o amrywiad yn eu cyfraddau blynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd gyda'r ddau yn cofnodi cynnydd (o 25 a 5 pwynt canran) ar eu cyfraddau 2004 -gyda chanlyniad fod gan y categori 2 seren gyfradd o 84% yn 2014.

Mae'r cyfraddau ar gyfer sefydliadau heb raddiad wedi amrywio dros y blynyddoedd gan gyrraedd brig o 62% yn 2013, ond yn gostwng i 48% yn 2014.


4 Tai Llety/ Gwely a Brecwast

Mae'r adran yma'n cynnwys lefelau cyfartalog defnydd ystafelloedd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast

4.1 Cyfartaledd Blynnyddol Defnydd Gwelyau ac Ystafelloedd

Er bod y cyfraddau cyfartalog blynnyddol ar gyfer defnydd gwelyau ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast ledled Cymru wedi parhau'n weddol gyson ar 27 neu 28% dros y tair blynedd ddiwethaf, gostyngodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau o 34 a 35% yn 2012 a 2013 i 33% yn 2014.

Ffigur 4.1 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynnyddol (%)




Mae cyfartaleddau blynnyddol 2014 yn dangos gostyngiad bach o gymharu gyda ffigurau 2013 ac yn sylweddol is na'r ffigurau uchaf yn 2004 pan oedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd yn 44% a chyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau yn 35%.

4.2 Defnydd Miseol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol 2014 ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynnyddol ar gyfer y sector tai llety a gwely a brecwast yn 2014 yn Ffigur 4.2 islaw.

Ffigur 4.2 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2014 (%)



Mae natur dymhorol y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast yng Nghymru yn parhau'n amlwg yn 2014. Dechreuodd cyfradd defnydd cyfartalog gwelyau y flwyddyn ar 10% yn Ionawr cyn cynyddu i frig o 50% ym mis Awst a gorffen y flwyddyn gyda chyfradd o 13% ym mis Rhagfyr 2014. Fe wnaeth cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd hefyd batrwm tebyg, yn cynyddu o 14% ym mis Ionawr i 57% ym mis Awst ac yna'n gostwng i 17% ym mis Rhagfyr.

Tabl 4.1 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Misol (%)


	Defnydd ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	22	26	17	19	18	17	15	13	14	12	14
Chwefror	27	29	27	27	26	25	24	19	19	21	18
Mawrth	29	36	28	29	30	27	27	24	28	26	23
Ebrill	44	40	42	40	34	38	38	39	36	30	32
Mai	49	49	52	49	46	45	42	41	42	44	41
Mehefin	57	56	57	50	45	48	50	49	48	44	43
Gorffennaf	64	63	65	54	54	54	53	50	49	55	51
Awst	73	72	71	66	59	59	57	59	53	57	57
Medi	56	59	56	51	47	51	50	45	48	45	46
Hydref	43	41	43	39	38	39	39	29	32	30	30
Tachwedd	28	24	28	27	25	25	25	19	20	22	21
Rhagfyr	25	20	27	19	21	21	18	13	13	19	17
Cyfartaledd Blynnyddol	44	44	43	40	37	38	37	34	34	35	33

Cofnodwyd gostyngiadau ar gyfer pob mis yn 2014 o gymharu gyda 2013 heblaw mis Ionawr. Dangosodd mis Ebrill a mis Medi gynnydd o 1 neu 2 pwynt canran. O gymharu gyda 2004, dangosodd pob mis ostyngiadau yn amrywio o 6 pwynt canran (Mawrth, Tachwedd a Rhagfyr) i 16 pwynt canran (Awst). Cyflwynir tueddiadau mewn cyfraddau misol defnydd gwelyau yn Atodiad 2a.

4.3 Cyfraddau Defnydd Rhanbarthol

Mae Ffigur 4-3 islaw'n cyflwyno cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer tai llety a sefydliadau gwely a brecwast ar gyfer pob rhanbarth o Gymru yn 2014. Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafell ar gyfer pob ardal yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad yma.

Ffigur 4.3 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol yn ôl Rhanbarthau Cymru – 2014 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y cyfraddau cyfartalog blynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd gwelyau ac ystafelloedd yn y De Orllewin lle cofnodwyd cyfartaledd o 34% a 40% yn yr un drefn ar gyfer sefydliadau yn y rhanbarth. Mae hyn yn wahanol i'r Canolbarth lle cofnodwyd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau o 22% a chyfradd cyfartalog flynyddol o 27% ar gyfer defnydd ystafelloedd.

Tabl 4.2 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd Ystafelloedd yn ôl Rhanbarth Cymru (%)

	Defnydd ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Gogledd	42	44	43	41	35	39	39	35	31	35	35
Canolbarth	33	34	33	33	29	33	32	34	32	32	27
De Ddwyrain	52	51	49	46	43	40	38	25	31	28	32
De Orllewin	48	47	48	43	43	39	39	37	40	43	40
Cymru gyfan	44	44	43	40	37	38	37	34	34	35	33


Fel y dangosir yn Nhabl 4.2, cynyddodd cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd yn y De Ddwyrain o 28% yn 2013 i 32% yn 2014 tra parhaodd yn gyson ar 35% yn y Gogledd. Yn y Canolbarth a'r De Orllewin gostyngodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd (o 37% i 27% ac o 43% i 40% yn yr un drefn).

4.4 Canran Gwesteion Tramor

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, bu mân newid yn 2008 yn y ffordd y casglwyd data ar gyfer gwesteion tramor, gyda'r ffurflenni'n cael eu diweddarau i roi mwy o ffocws iddynt a'u gwneud yn fwy effeithiol. Mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd ar gyfer pob diwrnod (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) a chyflwynwyd y canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Ni chaiff yr wybodaeth yma ei chasglu erbyn hyn, felly fel canlyniad cyflwynir y gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely tramor (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac i sicrhau y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn yr un dull, gostyngwyd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynwyd ar gyfer gwesteion tramor ac mae'r ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau diweddaraf 2008 i 2014.

Ffigur 4.4 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Nosweithiau Gwely Tramor - 2014 (%)




Mis Rhagfyr oedd y mis brig ar gyfer ymwelwyr tramor gyda 19% o nosweithiau gwely yn cael eu priodoli i westeion tramor. Profodd misoedd yr haf (mis Mai i fis Medi) gyfraddau rhwng 13% a 15% tra gwelwyd y gyfradd isaf (5%) ym misoedd Mawrth a Hydref.

Tabl 4.3 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Canrannau Nosweithiau Gwely Tramor

	Defnydd ystafelloedd						
	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	10	13	10	5	11	5	6
Chwefror	5	9	7	7	12	9	8
Mawrth	9	6	7	5	9	10	5
Ebrill	11	8	10	10	10	13	9
Mai	12	9	12	11	12	12	13
Mehefin	12	14	11	12	13	14	16
Gorffennaf	21	17	15	16	17	17	17
Awst	15	14	12	12	13	14	15
Medi	13	9	12	10	11	13	12
Hydref	7	10	10	9	6	10	5
Tachwedd	5	7	11	7	6	9	7
Rhagfyr	8	9	16	3	6	10	19
Cyfartaledd blynyddol	12	11	12	11	11	13	11

Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r canran o nosweithiau gwely tramor wedi parhau'n weddol gyson, yn neilltuoel yn ystod mis Mai i fis Medi. Yr eithriadau i hyn yw mis Ionawr (lle gostyngodd y canran o westeion tramor o 10 yn 2008 i 6 yn 2014) a mis Rhagfyr lle amrywiodd y canran, gan ddechrau ar 8% yn 2008, gan gynyddu i 16% ac yna ostwng i 3% yn 2010 cyn cynyddu i 19% yn 2014..

Ffigur 4.5 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Tramor yn ôl Rhanbarth 2008 –2014 (%)



Ar wahân i'r De Ddwyrain cymharol ychydig o amrywiad a gofnododd pob rhanbarth yn y canran o westeion tramor. Cofnododd y De Ddwyrain werthoedd uchel o hyd at 21% yn y blynyddoedd 2008-2010 (dwywaith y rhai a gafwyd yn y Gogledd a'r Canolbarth a hyd at 9 pwynt canran yn uwch na'r rhai yn y De Orllewin). Gostyngodd lefelau yn y rhanbarth yma i 10% yn 2011 (oherwydd gostyngiad yn y cyfraddau ymateb a hefyd lefelau defnydd a adroddwyd), cynyddu i 13% yn 2012 ac i 24 a 23% yn 2013 a 2014.

4.5 Canran Gwesteion Busnes

Gofynnwyd i weithredwyr tai llety a gwely a brecwast gofnodi nifer y gwesteion yn aros ar gyfer dibenion busnes. Dylid nodi na chawsom yr wybodaeth yma gan yr holl gyfranogwyr.


Tabl 4.4 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Canran Gwesteion Busnes – 2010 - 2014 (%)

Canran Gwesteion Busnes					
	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	61	43	50	58	47
Chwefror	63	33	42	30	40
Mawrth	36	21	23	24	18
Ebrill	21	7	16	20	10
Mai	11	15	15	10	6
Mehefin	14	11	14	12	7
Gorffennaf	15	7	10	7	12
Awst	10	8	12	6	8
Medi	15	11	16	12	12
Hydref	17	19	29	21	16
Tachwedd	36	42	37	38	20
Rhagfyr	40	36	30	28	37
Cyfartaledd blynyddol	20	15	20	15	14

Mae'r cyfartaledd blynyddol ar gyfer defnydd busnes yn y sector Tai Llety/Gwely a Brecwast wedi bod braidd yn amrywiol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan amrywio rhwng 20% a 15% (2010 - 2013) a gostwng i 14% yn 2014. Fel y dangosir yn Nhabl 4.4 Uchod (mae'r amrywiad cyffredinol yma'n cuddio rhai amrywiadau hyd yn oed fwy pan y'u dadansoddir ar sail fisol.

Roedd cyfradd cyfartalog defnydd busnes 2014 yn is nag ar gyfer 2013 ym mhob mis heblaw pedwar - Chwefror, Gorffennaf, Awst a Rhagfyr ((+10, 5, 2 a 9 pwynt canran yn yr un drefn). Ym misoedd eraill 2014 roedd y cyfraddau busnes a gofnodwyd ymysg yr isaf a gafwyd ers 2010. Dengys ffigur 4.6 (trosodd) y canran o westeion busnes ar gyfer y rhanbarthau unigol rhwng 2010-2014. Eto, dylid nodi na chawsom yr wybodaeth yma gan yr holl gyfranogwyr ac felly mae canlyniadau'n fwy amrywiol na'r cyfraddau defnydd cyffredinol.

Ffigur 4.6 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Cyfartaledd Blynyddol Gwesteion Busnes yn ôl Rhanbarth 2010– 2014 (%)




Mae canrannau cyfartalog blynyddol gwesteion busnes wedi parhau'n gymharol gyson dros y pum mlynedd ddiwethaf yn y Gogledd a'r Canolbarth. Fodd bynnag, dangosodd rhanbarthau yn y De fwy o amrywiad dros y cyfnod yma. Yn y De Orllewin, cofnodwyd gostyngiad o bymtheg pwynt canran yn 2011, gyda blynyddoedd dilynol yn cofnodi cyfraddau o 12% (2012) a 8% (2013 a 2014). Yn y De Ddwyrain, bu gostyngiad o ddeuddeg pwynt canran yn 2013, gydag adferiad i 34% yn 2014.

4.6 Defnydd yn ôl Maint

Oherwydd maint bach y sampl yn llawer o'r categorïau maint mwy, dim ond ar gyfer dau gategori o Dai Llety/Gwely a Brecwast y cyflwynir cyfraddau defnydd: 1-3 ystafell a 4-10 ystafell.

Cyflwynir y ffigurau cyfartalog misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl maint Tai Llety/Gwely a Brecwast yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4.7 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blynyddol yn ôl maint Tŷ Llety/Gwely a Brecwast - 2014 (%)



Fel y dangosir yn Ffigur 4.7 uchod, roedd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd gwelyau ychydig yn uwch yn y sefydliadau hynny gyda 1-3 ystafell, tra bod cyfradd defnydd ystafelloedd ar gyfer y maint categori yma ychydig yn is nag ar gyfer y sefydliadau mwy (4-10 ystafell).

Tabl 4.5 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Maint Tŷ Llety/Gwely a Brecwast (%)

	Cyfartaledd Blynyddol Defnydd Ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
1-3 ystafell	36	36	34	33	31	30	32	27	29	33	32
4-10 ystafell	48	48	47	47	40	43	40	37	36	36	34

Cofnododd y ddau gategori maint ostyngiad mewn defnydd cyfartalog blynyddol ystafelloedd o gymharu gyda 2013 (gostwng o 33% i 32% yn y sefydliadau llai ac o 36% i 34% yn y sefydliadau mwy). Yn ychwanegol, mae'r ddau faint categori wedi dangos cwymp o gymharu gyda ffigurau 2004 (o 4 pwynt canran ar gyfer rhai gyda 1-3 ystafell a 14 pwynt canran ar gyfer y categori maint mwy).

4.7 Defnydd yn ôl Tariff


Fel yn yr arolwg gwestai, mae'r ffigurau tariff a ddefnyddir yn yr arolwg yn cyfeirio at y swm a godir fesul person am ystafell ddwbl neu ystafell gefaill, yn cynnwys brecwast. Rhoddir manylion lefelau misol defnydd ystafelloedd a gwelyau ar gyfer pob un o'r categorïau tariff a ddefnyddir yn y dadansoddiad yn Atodiad 2b a 2c yr adroddiad. Oherwydd maint y sampl, dylid nodi mai dim ond ar gyfer sefydliadau gyda thariff o fwy na £20 y cyflwynir canlyniadau ac nid ar gyfer rhai sy'n codi £60 neu fwy.

Ffigur 4.8 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blynyddol yn ôl Tariff Tŷ Llety/Gwely a Brecwast - 2014 (%)



Mae'r cyfraddau cyfartalog blynyddol ar gyfer defnydd a ddangosir yn Ffigur 4.8 yn dangos cydberthynas cyffredinol rhwng tariff a chyfraddau defnydd, o leiaf ar gyfer y bandiau tariff uchaf ac isaf. Cyfradd gyfartalog defnydd gwelyau o ddim ond 11% a chyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd o 15% a gofnododd sefydliadau'n codi £20-£29.99 yn 2014, sy'n cymharu gyda 32% a 39% yn yr un drefn ar gyfer rhai'n codi £50-£59.99. Roedd y cyfraddau ar gyfer y ddau fand tariff canol yn 2014 unwaith eto'n debyg i'w gilydd ac ychydig yn is na'r cyfraddau ar gyfer rhai'n codi £50-£59.99.

Ffigur 4.9 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast



Tabl 4.6 Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast (%)

Cyfartaledd Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Tariff Tai Llety/Gwely a Brecwast											
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
£20-£29.99	43	42	41	37	32	30	28	24	28	22	15
£30-£39.99	49	47	43	41	38	37	37	35	35	34	33
£40-£49.99	*	*	*	*	49	45	38	35	35	34	32
£50-£59.99	*	*	*	*	*	*	54	34	*	40	39

* maint y sampl yn rhy fach i gyflwyno data


Mae cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd wedi dangos gostyngiad cyffredinol ers 2004 ar gyfer pob un o'r bandiau tariff.

Dylid nodi na fu meintiau sampl sefydliadau'n codi £40-£49.99 a £50-£59.99 bob amser yn ddigon mawr i alluogi cyflwyno dadansoddiad.

4.8 Defnydd yn ôl Lleoliad

Dadansoddwyd cyfraddau defnydd yn ôl lleoliad Tai Llety/Gwely a Brecwast - mewn dinas/tref fawr, tref fach, glan môr neu leoliad gwledig/pentref. Cyflwynir y lefelau misol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer pob math o leoliad yn Atodiad 2b a 2c.

Ffigur 4.10 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd Blynyddol yn ôl lleoliad Tŷ Llety/Gwely a Brecwast - 2014 (%)



Cofnodwyd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd gwelyau yn 2014 ar gyfer sefydliadau mewn dinasoedd/trefi mawr (38%) tra cofnododd rhai mewn lleoliadau gwledig/pentref gyfartaledd blynyddol o 25% a'r rhai mewn trefi bach a lleoliadau gwledig/pentref gyfradd o 33%. Lleoliadau dinas/tref fawr hefyd gofnododd y gyfradd gyfartalog flynyddol uchaf ar gyfer defnydd ystafelloedd (50%) gyda'r rhai ar gyfer lleoliadau eraill yn amrywio o 42% trefi bach) i 30% lleoliadau gwledig/pentref).

Tabl 4.7 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Lleoliad Tŷ Llety/Gwely a Brecwast

Cyfartaledd Blynyddol Defnydd Ystafelloedd											
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Dinas/tref fawr	63	64	67	64	57	54	42	*	45	*	50
Tref fach	38	42	41	40	38	40	37	44	43	41	42
Glan môr	46	47	47	46	44	42	46	42	36	40	37
Gwledig/pentref	41	41	40	36	33	33	34	30	31	32	30

* maint y sampl yn rhy fach i gyflwyno data


Ers 2004, mae pob lleoliad heblaw trefi bach wedi gweld gostyngiad o rhwng 13 a 9 pwynt canran yng nghyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd. Gwelodd trefi bach gynnydd o 4 pwynt canran yn y cyfnod gyda brig o 44% yn 2011. Yn dilyn gostyngiadau rhwng 2010 a 2012 (o 46% i 36%), cynyddodd cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast mewn ardaloedd glan môr yn 2013 i 40% ond syrthio i 37% yn 2014. Ers 2008, cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd ar gyfer sefydliadau mewn lleoliadau gwledig/pentref fu fwyaf cyson (yn yr ystod 30%-34%)

4.9 Defnydd yn ôl Graddiad

Fel gyda gwestai, cafodd cyfraddau defnydd ar gyfer Tai Llety/Gwely a Brecwast eu dadansoddi yn ôl eu graddiad dan y Cynllun Graddiad Seren a weinyddir gan Croeso Cymru.

Mae Ffigur 4.11 yn cyflwyno ffigurau blynyddol ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd yn ôl graddiad ar gyfer 2014. Oherwydd maint bach samplau sefydliadau gyda 1 neu 2 seren, nid oes ffigurau ar gael ar gyfer y categorïau graddiad hyn. Dylid nodi nad yw pob sefydliad yn cyflenwi gwybodaeth am raddiad ac felly, ni chaiff pob un ei gynnwys yn y dadansoddiad yma.

Ffigur 4.11 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Defnydd yn ôl Graddiad Tai Llety/Gwely a Brecwast - 2014 (%)



Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cofnodwyd cydberthynas rhwng graddiad a lefelau defnydd yn 2014. Cofnododd Tai Llety/Gwely a Brecwast heb raddiad gyfradd flynyddol o 20% ar gyfer defnydd gwelyau a chyfradd flynyddol o 22% ar gyfer defnydd ystafelloedd, sydd ill dwy yn is na'r rhai a gofnodwyd ar gyfer sefydliadau gyda graddiad.

O fewn cynllun graddiad Croeso Cymru, cynyddodd cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ar gyfer 2014 mewn cydberthynas gyda'r nifer o sêr a ddyfarnwyd i sefydliadau ym mhob categori. Cofnododd sefydliadau 3 seren gyfartaledd blynyddol o 26% ar gyfer defnydd gwelyau o gymharu â 33% ar gyfer rhai gyda graddiad 5 seren.

Tabl 4.8 - Tai Llety/Gwely a Brecwast - Tueddiadau mewn Cyfraddau Blynyddol Defnydd Ystafelloedd yn ôl Graddiad (%)

	Cyfartaledd Blynyddol Defnydd Ystafelloedd										
	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Heb raddiad	33	35	36	36	34	22	26	24	19	26	22
3 Seren	44	43	43	38	35	38	36	31	32	31	34
4 Seren	48	44	45	43	40	38	39	36	37	37	33
5 Seren	-	-	-	-	41	48	43	35	32	36	39

Mae sefydliadau 3 a 4 seren fel ei gilydd wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau cyfartalog blynyddol defnydd ystafelloedd ers 2004 (eu blwyddyn frig gyda chyfraddau o 44 a 48% yn yr un drefn) tra cyrhaeddodd sefydliadau heb raddiad eu brig (36%) yn 2006 a 2007 ond wedi gostwng ers hynny. Nid oes ffigurau ar gyfer sefydliadau 5 seren cyn 2008, ond mae'r categori yma hefyd wedi gweld gostyngiad o'u brig o 48% yn 2009.


5 Pob Llety â Gwasanaeth

Mae adran yma o'r adroddiad yn cyflwyno lefelau defnydd cyfartalog blynyddol gwelyau ac ystafelloedd ar gyfer y gwahanol fathau o lety â gwasanaeth h.y. Gwestai, Tai Llety a Gwely a Brecwast.

5.1 Defnydd Cyfartalog Gwelyau ac Ystafelloedd

Roedd cyfradd cyfartalog blynyddol defnydd gwelyau ar gyfer pob llety â gwasanaeth ar draws Cymru yn 2014 yn 45%, tra bod y gyfradd gyfartalog flynyddol ar gyfer defnydd ystafelloedd yn 60%.

Ffigur 5.1 – Llety â Gwasanaeth - Tueddiadau mewn Cyfraddau Defnydd - Cyfartaleddau Blynyddol (%)




Yn dilyn cyfnod o bedair blynedd pan gofnodwyd cyfradd o 38% ar gyfer defnydd cyfartalog blynyddol gwelyau (2008 i 2011), mae'r gyfradd hon wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf i lefel 2014 o 45%. Mae cyfradd gyfartalog flynyddol defnydd ystafelloedd hefyd wedi bod yn gyson iawn mewn blynyddoedd diweddar gyda 52% wedi'i gofnodi bob blwyddyn rhwng 2008 a 2012, gyda chynnydd yn 2013 i 54% ac yn 2014 i 60%.

5.2 Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd

Cyflwynir cyfraddau misol defnydd gwelyau ac ystafelloedd ynghyd â'r cyfartaleddau blynyddol a gofnodwyd ar gyfer pob llety â gwasanaeth yn Ffigur 5.2 islaw.

Ffigur 5.2 – Llety â Gwasanaeth - Defnydd Misol Gwelyau ac Ystafelloedd - 2014 (%)



Fel y soniwyd yn flaenorol, ar gyfer y sectorau Gwestai a Tai Llety/Gwely a Brecwast ar wahân, arhosodd natur dymhorol llety â gwasanaeth yn amlwg yn 2014. Cyrhaeddodd cyfraddau cyfartalog defnydd gwelyau ac ystafelloedd frig ym mis Awst 2014 pan gofnodwyd cyfraddau o 62% a 75% yn yr un drefn. Cofnodwyd lefelau is y tu allan i brif dymor yr haf gyda'r cyfartaleddau isaf wedi'u cofnodi ym mis Ionawr 2014 (28% a 40% yn yr un drefn).

5.3 Canran Gwesteion Tramor

Gofynnir i weithredwyr ddynodi nifer y gwesteion sy'n aros yn eu sefydliad bob nos yn ôl dinasyddiaeth - o'r Deyrnas Unedig a thramor - ar eu ffurflen defnydd fisol. Dylid nodi bod angen gofal wrth drin y canlyniadau gan nad yw pob ymatebydd yn rhoi'r wybodaeth.

O ddechrau 2008, nid oedd gwybodaeth ar gyfer cyraeddiadau ar gyfer ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig a thramor yn cael ei chasglu mwyach, ac mae hynny wedi effeithio ar y ffordd y caiff data ar gyfer gwesteion tramor ei gyfrif. Yn flaenorol, gofynnwyd i sefydliadau roi gwybodaeth ar nifer y cyraeddiadau newydd bob blwyddyn (o'r Deyrnas Unedig a hefyd dramor) ac fe wnaethom gyflwyno'r canran o westeion tramor yn seiliedig ar gyfanswm nifer y cyraeddiadau. Nid yw'r wybodaeth yma'n cael ei chasglu bellach, felly fel canlyniad, cyflwynir y gyfran o arosiadau tramor fel canran o nosweithiau gwely (yn seiliedig ar gyfanswm nosweithiau gwely).

Oherwydd y newidiadau hyn ac i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff ffigurau tramor ar draws y blynyddoedd eu cymharu yn seiliedig ar yr un dull, gostyngwyd faint o wybodaeth tueddiad a gyflwynwyd ar gyfer gwesteion tramor ac mae'r ffocws yn yr adroddiad yma ar ganlyniadau 2008 i 2014 (ar y dudalen nesaf).

Tabl 5.1 – Llety â Gwasanaeth - Pob Llety â Gwasanaeth - Canran Nosweithiau Gwely Tramor – 2008 - 2014 (%)

Defnydd ystafelloedd	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Ionawr	5	7	6	6	6	4	3
Chwefror	3	6	5	5	4	4	3
Mawrth	5	5	5	5	5	5	3
Ebrill	6	5	6	6	5	7	5
Mai	8	6	8	8	7	8	8
Mehefin	8	8	8	8	6	9	9
Gorffennaf	11	10	10	10	10	12	10
Awst	8	8	8	8	9	10	9
Medi	10	6	8	6	7	9	6
Hydref	5	6	7	5	4	6	5
